Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes
Senedd Cymru

2 Gorffennaf 2021

Annwyl Lywydd

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd

Deallaf fod y Pwyllgor Busnes wedi penderfynu ar 29 Mehefin i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (NHAS).

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno ar ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 13 Medi ac mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal dadl yn gofyn am gydsyniad y Senedd y diwrnod canlynol. Byddai'r amserlen hon o ddwy wythnos lawn yn afresymol o dan amgylchiadau arferol. Mae hyd yn oed yn fwy felly, o gofio nad yw'r Pwyllgor Busnes eto wedi cytuno a chyflwyno cynigion ar gyfer ethol aelodau'r Pwyllgor, ac nad yw eto wedi cytuno ar amserlen ar gyfer cyfarfodydd y pwyllgor.

Mae proses y Memorandwm yn golygu y gofynnir i'r Senedd gytuno y dylai Senedd y DU ddeddfu ar ei rhan mewn meysydd datganoledig. Ni ddylai fod angen atgoffa'r Pwyllgor Busnes o arwyddocâd y broses hon a'r angen i graffu'n ddigonol ar unrhyw gynigion o'r fath. Deallaf fod angen i'r amserlen graffu ystyried hynt Bil drwy Senedd y DU. Fodd bynnag, ni ddylai'r Pwyllgor Busnes ddechrau tymor y Chweched Senedd drwy danseilio'r broses graffu y dylai fod yn ei hwyluso a'i chefnogi.

Buaswn yn ddiolchgar pe bai'r Pwyllgor Busnes yn ailystyried yr amserlen graffu yn ei gyfarfod nesaf. Os na all y Pwyllgor Busnes gytuno ar estyniad i'r amserlen, dylai o leiaf geisio ymrwymiad y bydd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor

MHAS cyn toriad yr haf fel y gellir craffu ar y cynigion. Mae hyn, wrth gwrs, yn amodol ar i'r Pwyllgor Busnes sefydlu'r Pwyllgor yn llawn a chytuno ar amserlen o gyfarfodydd y pwyllgor.

Yn olaf, mae pennu dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad un diwrnod cyn y ddadl arfaethedig yn y Cyfarfod Llawn yn ei gwneud yn anodd iawn i Lywodraeth Cymru ymateb i adroddiad y Pwyllgor ac unrhyw argymhellion sydd ynddo mewn ffordd ystyrlon. Buaswn yn ddiolchgar pe bai'r Pwyllgor Busnes yn gofyn am ymrwymiad gan y Trefnydd y bydd ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar gael i'r Senedd cyn y ddadl ar y Memorandwm.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.